

Tasg 1
Pwy ydy pwy?

Dyma enwau'r bobl yn y lluniau, ond pwy ydy pwy?

Non Stanford

Robert Pattinson

Mo Farah

Emma Stone

Rhys Ifans

Darllenwch eto ac ysgrifennwch yr enwau yn y grid.



Mae hi'n actores ac mae hi'n dod o America. Mae hi'n actio mewn ffilmiau, er enghraifft, *Birdman*, *The Amazing Spider-Man* a *The Amazing Spider-Man 2*, *Gangster Squad*, *The Help*, *Crazy*, *Stupid Love*.
Mae hi'n actio ar y teledu hefyd. Mae hi'n actio'n dda iawn.
Bethany

Pwy?



Mae e'n actor. Mae e'n actio mewn ffilmiau, er enghraifft, yn ffilmiau'r *Twilight Saga*, *Water for Elephants*, *Maps to the Stars*, *Queen of the Desert*.
Mae e'n actio Cedric Diggory yn y ffilm *Harry Potter and the Goblet of Fire* hefyd.
Mae e'n actio'n wych ac mae e'n canu'n dda iawn hefyd. Dw i'n hoffi'r actor yma'n fawr achos mae e'n dalentog iawn.

Sophie


Pwy?



Mae'n well gen i actor o Gymru. Mae o'n actio yn *The Amazing Spider-Man*, *Nanny McPhee Returns*, *Christmas Carol: The Movie*, *Notting Hill*, *Twin Town*.
Mae o'n actio Xenophilius Lovegood yn *Harry Potter and the Deathly Hallows: Part 1* ac mae o'n wych.
Mae'r actor yma'n canu hefyd. Mae o'n dalentog iawn – ac mae o'n siarad Cymraeg – Gwych!

Josh

Pwy?



Mae fy hoff seleb i'n rhedeg. Mae e'n rhedeg dros Brydain a Lloegr mewn marathonau ac mewn rasys pum mil (5,000) metr a deg mil (10,000) metr. Mae e'n rhedeg yn ardderchog – mae e'n Bencampwr Olympaidd ac yn Bencampwr y Byd. Mae e'n dod o Somalia ond mae e'n byw yn Llundain ers yn 8 oed. Mae e'n byw yn Oregon, America hefyd. Mae e'n athletwr gwych, yn fy marn i.

Gareth

Pwy?



Mae fy hoff seleb i'n rhedeg – ond mae hi'n beicio a nofio hefyd. Mae hi'n rhedeg yn ardderchog. Mae hi'n beicio'n ardderchog. Mae hi'n nofio'n ardderchog. Hi ydy Pencampwr Triathlon y Byd ac mae hi'n dod o Gymru – o Abertawe.

Yn fy marn i, mae hi'n dalentog iawn.

Lucy

Pwy?

2. Pwy? Ysgrifennwch yr enwau:


Mae hi'n rhedeg yn gyflym.


Mae hi'n actio'n dda.

Mae e'n actio'n dda.

Mae e'n canu'n dda iawn.

Mae e'n rhedeg yn gyflym.





3. Mae Bethany'n dweud:

Mae hi'n actio ar y teledu hefyd. (= ffaith)

Mae hi'n actio'n dda iawn. (= barn)

Beth ydy **barn** y bobl yma am y selebs?

Gareth	
Sophie	
Josh	
Lucy	

4. Dewiswch 1 o'r selebs ac ysgrifennwch 3 ffaith am y person.

Beth ydych chi'n feddwl o'r seleb yma?

Dwedwch wrth berson arall am y seleb.

